

Crynodeb Gweithredol

Tyfu Fyny Mawrth 2017 – Mawrth 2020



CEFNOGWYD

369

PROSIECT.



1,263

UNIGOLYN WEDI
CYMRYD RHAN MEWN
HYFFORDDIANT.



WEDI YMGYSYLLTU Â

9,527

RHANDDEILIAD.



CWBLHAWYD

199

DIWRNOD O
HYFFORDDIANT.



DYWEDODD

91%

O YMATEBWYR I AROLYGON
FOD EU GWYBODAETH A'U
SGILIAU WEDI CYNFYDDU.



CWBLHAWYD

6

ASTUDIAETH
DICHONOLDEB.



DYWEDODD

88%

O YMATEBWYR I AROLYGON FOD Y
PROSIECT WEDI HELPŪ EU GRŴP I
WIREDDU EI NODAU.

Prif Agweddau Dysgu

-  Mae'r sector tyfu cymunedol yng Nghymru'n ffynnu, gyda photensial enfawr i gyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru o safbwynt yr economi, treftadaeth ddiwylliannol, yr amgylchedd ac iechyd a llesiant cymunedau.
-  Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at gyfleoedd sylweddol i'r sector o ran ategu gwerth bwyd lleol ac o safbwynt cyfrannu at ddiogelwch bwyd yn y dyfodol.
-  Er gwaethaf bodolaeth strategaeth tyfu gymunedol cenedlaethol, mae 'na amrywiaethau arwyddocaol o ran sut mae hyn yn troi'n gefnogaeth a gweithredu ar draws ardaloedd Awdurdodau Lleol gwahanol.
-  Mae model cyflenwi Tyfu Fyny o ddefnyddio Gweithwyr Datblygu profiadol o'r sector sy'n gyfrwng i gyngor a chefnogaeth arbenigol ochr yn ochr ag ymgynghorwyr arbenigol, yn effeithiol.
-  Cymorth neilltuol sy'n bodloni anghenion grŵp mewn ffordd uniongyrchol yw'r cymorth mwyaf effeithiol ac effeithlon.
-  O safbwynt grwpiau mae rhwydweithio a dysgu gan gydweithwyr yn hynod werthfawr, ac yn fwy tebygol o arwain at newid parhaol o fewn y sector.
-  Mae gwerth ychwanegol sylweddol mewn perthynas â chyfuno elfennau gwahanol y sector tyfu o dan un prosiect, ac mae ganddo'r potensial i symud tu hwnt i gynnyrch bwytdwy yn y dyfodol.
-  Roedd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn gallu defnyddio eu profiad a hanes o waith ymgysylltu yn y gymuned i gynnig cymorth amlweddol i fentrau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned [AGG] a Ffermydd Gofal oedd yn ymestyn ymhell tu hwnt i gyngor oedd yn benodol i'r diwydiant.
-  Mae bywiogrwydd y sector yn amrywio ar lefel ddaearyddol, a hwyrach y bydd angen datblygu'r farchnad mewn rhai ardaloedd.
-  Dylai unrhyw brosiect yn y dyfodol adeiladu ar y cyfoeth o wybodaeth a phrofiad a rhwydweithiau a ddatblygwyd trwy gynllun Tyfu Fyny.
-  Dylid dyrannu digon o gapasiti ac adnoddau i unrhyw brosiect yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn cyrraedd pob rhan o'r sector a phob rhan o Gymru, ond hefyd er mwyn i ddulliau gwaith cyffredinol gweddu i'r dylanwad ar bolisi strategol.
-  Rhai o'r prif heriau sy'n parhau i wynebu'r sector yw cael hyd i dir priodol a goresgyn rhwystrau mewn perthynas â chynllunio.
-  Mae angen cefnogaeth neilltuol a/neu hyfforddiant ar gyfer grwpiau i'w galluogi i ddangos eu Gwerth Cymdeithasol.